

# Gwasanaethau Cymdeithasol

## Taflen Wybodaeth

### Gwasanaeth Ailalluogi



Mehefin 2023

## GWASANAETH AILALLUOGI - TAFLEN WYBDOAETH

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

YN YMWNED AG	Ailalluogi
RHIF CYFEIRNOD	LL11
ADRAN	Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
AWDUR	Paula Curtis
DYDDIAD YR ADOLYGIAD DIWETHAF	Mehefin 2023
DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF	Mehefin 2025

## Cynnwys

AILALLUOGI .....	4
Sut mae Ailalluogi yn Gweithio? .....	4
Ar gyfer pwy mae Ailalluogi? .....	4
Beth sy'n digwydd os byddaf angen gofal parhaus? .....	5
Sut i Ymgeisio ar gyfer Ailalluogi .....	5
GOFALWYR .....	5
Sut allaf i fel gofalwr gefnogi'r rhaglen ail-alluogi?.....	5
Eich hawliau fel gofalwr .....	6
RHAI TAFLENNI ERAILL A ALL FOD YN DDEFNYDDIOL.....	6
CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL .....	7
CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU .....	8

## AILALLUOGI

Mae ailalluogi yn adeiladu ar yr hyn yr ydych yn gallu ei wneud ac yn eich cefnogi i adennill eich sgiliau, hyder ac annibynniaeth i aros yn eich cartref eich hun.

Mae ailalluogi am gyfnod byr. Mae hyn yn gallu bod yn un wythnos neu hyd at fwyafswm o chwech wythnos, yn dibynnu ar eich anghenion.

Mae ailalluogi yn anelu i ddatblygu eich annibynniaeth hirdymor, dewis ac ansawdd bywyd. Mae'r therapi sy'n cynnwys; Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi a Hyfforddwyr Technegol am ddim am hyd at 6 wythnos. Mae'r elfen gofal a chefnogaeth am ddim am bythefnos.

### Sut mae Ailalluogi yn Gweithio?

Mae ailalluogi yn eich helpu chi i wneud pethau drosoch chi eich hun yn hytrach na gwneud pethau i chi. Mae'r ffocws ar ddeilliannau personol gyda ffocws ar lais, dewis a rheoli eich gofal.

Y nod cyffredinol yw eich helpu i ddychwelyd i ymdopi gartref eto.

Mae'r math o gefnogaeth a ddarperir wedi'i deilwra ar gyfer ein hasesiad o'ch anghenion unigol. Er enghraift:


- Cymorth gyda gofal personol
- Cefnogaeth ymarferol i baratoi prydau
- Anogaeth gyda meddyginaeth neu reoli meddyginaeth
- Darparu offer a'ch helpu i ddeall sut i'w ddefnyddio
- Dysgu ymarferion i'ch helpu i adennill symudedd, cryfder a hyder - gyda chefnogaeth ac anogaeth i wneud yr ymarfer
- Dod o hyd i ddatrysiau ymarferol i broblemau a all fod yn lleihau eich annibyniaeth
- Cynyddu eich hyder i gymryd rhan mewn grwpiau cymunedol

### Ar gyfer pwys mae Ailalluogi?

Mae ailalluogi yn gallu helpu llawer o bobl wahanol gan gynnwys bobl hŷn, pobl gydag anableddau corfforol neu nam synhwyraidd a bobl gydag anawsterau iechyd meddwl neu anableddau dysgu.

Mae angen i chi fod yn byw yn Sir y Fflint a bod dros 18 oed.

Gall oedolion sy'n ceisio gwasanaeth gofal cymdeithasol dderbyn gwasanaeth ailalluogi cyn i unrhyw wasanaeth gofal hirdymor gael ei gynllunio. Bydd asesiad yn cael ei gynnal i sefydlu'r dull gorau i chi, a pha weithiwr proffesiynol fyddai fwyaf addas ar gyfer eich deilliannau personol.



### Beth sy'n digwydd os byddaf angen gofal parhaus?

Mae'r Gwasanaeth Ailalluogi yn darparu cefnogaeth tymor byr yn unig. Pan fydd mwyafswm lefel annibyniaeth wedi'i gyflawni bydd y rhaglen Ailalluogi yn dod i ben. Os oes gennych anghenion gofal parhaus bydd y rhain yn cael eu trafod gyda chi ac os yn briodol cytunir ar becyn gofal.

Ar gyfer unrhyw drefniant gofal hirdymor, mae'n bosibl y bydd angen cynnal Asesiad Ariannol ac mae'n bosibl y codir tâl arnoch.

### Sut i Ymgeisio ar gyfer Ailalluogi

Gallwch gysylltu â'r Tîm Un Pwynt Mynediad ar 03000 858 858 i drafod y meysydd ble byddech yn hoffi bod yn fwy annibynnol neu hyderus a byddwn yn cynnal asesiad o'ch anghenion gyda chi. Gall hyn gynnwys asesiad dros y ffôn a'ch cyfeirio i wasanaethau priodol i'ch cefnogi i fodloni eich deilliannau.

## GOFALWYR

### Sut allaf i fel gofalwr gefnogi'r rhaglen ail-alluogi?

Mae'n bwysig fod yr unigolyn a ofalwch amdanynt yn gallu **ymarfer ac ail-ddysgu'r** sgiliau a gytunwyd yn y rhaglen i adennill cymaint o hyder ac annibyniaeth â phosib. Bydd yr anogaeth a'r gefnogaeth a ddarparwch, wrth gynnal eich swyddogaeth ofalu, yn eu cefnogi nhw a'r tîm ail-alluogi.

Rydym yn gwybod ei bod yn bwysig i gynnwys a hysbysu gofalwyr a byddwn yn trin eich gwybodaeth am yr unigolyn a ofalir amdanynt gyda pharch. Byddwn yn eich helpu i ddeall

penderfyniadau a gymerir os oes angen, pan wneir penderfyniadau yn eich absenoldeb, fod y penderfyniadau hynny yn cael eu hegluro yn ddi-oed.

Cyn belled â bod yr unigolyn a ofalir amdanyst yn cytuno, gallwn drafod eu cynnydd ar y rhaglen gyda chi ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

### Eich hawliau fel gofalwr

Mae gennych hawl i asesiad anghenion gofalwr ar wahân. Gallwch gael cyngor gan Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)

28 – 44 Stryd Newydd, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1NZ

01352 752525

Oriau agor: Dydd Llun – Dydd Iau 9am – 5pm Dydd Gwener 9am-4.30pm

E-bost: [flintshire@newcis.org.uk](mailto:flintshire@newcis.org.uk)

Gwefan: [www.newcis.org.uk](http://www.newcis.org.uk)

### RHAI TAFLENNI ERAILL A ALL FOD YN DDEFNYDDIOL

- Taliadau am Ofal yn y Cartref
- Eich hawl i ganmol a chwyno

AM FWY O WYBODAETH, GAN GYNWYS COPIAU O'R TAFLENNI Y SONIWYD AMDANYNT, GALLWCH GYSYLLTU Â'R:

Tîm Un Pwynt Mynediad, Preswylfa, Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug CH7 1PZ.

[sboa@flintshire.gov.uk](mailto:sboa@flintshire.gov.uk)



03000 858 858

Y rhif argyfwng y tu allan i oriau yw **0845 053316**.

## CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Mae ystod eang o sefydliadau gwirfoddol yn darparu cyngor a chymorth annibynnol. Gallwch gysylltu â nhw i gael gwybod am eich hawliau.

<b>Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint</b>	
08444 772020	<a href="http://www.flintshirecab.org.uk">www.flintshirecab.org.uk</a>
<b>Gofal a Thrwsio Sir y Fflint</b>	
	Mae Gofal a Thrwsio Sir y Fflint yn rhoi cyngor ar atgyweiriadau tai, addasiadau a budd-daliadau ar gyfer pobl anabl a'r henoed.
01352 758700	<a href="http://www.flintshirecr.co.uk">www.flintshirecr.co.uk</a>
<b>Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru</b>	
08450 549969	<a href="http://www.acnew.org.uk">www.acnew.org.uk</a>
<b>Llinell Gymorth Mencap Cymru</b>	
0808 808 1111	<a href="http://www.mencap.org.uk/wales">www.mencap.org.uk/wales</a>
<b>MIND</b>	
01352 757637	<a href="http://www.flintshiremind.org.uk">www.flintshiremind.org.uk</a>
<b>Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)</b>	
01352 752525	<a href="http://www.carers.org/local/wales/flintshire">www.carers.org/local/wales/flintshire</a>
<b>Fforwm Anabledd Sir y Fflint</b>	
01352 755546	
<b>Y Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	
Cyswllt Cyntaf, Preswylfa, Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1PZ	
03000 858 858	<a href="mailto:SSDUTY@flintshire.gov.uk">SSDUTY@flintshire.gov.uk</a> <a href="http://www.flintshire.gov.uk/careinfo">www.flintshire.gov.uk/careinfo</a>

## CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU

Er gwaethaf ein holl ymdrechion rydym yn ymwybodol y gallai fod yna adegau pan fo angen i chi wneud cwyn. Gellir gwneud unrhyw gŵyn am y gwasanaethau i'ch Gweithiwr Cymdeithasol, eu Rheolwr Tîm neu fe allwch gysylltu â'r:

Swyddog Cwynion  
Gwasanaethau Cymdeithasol  
Neuadd y Sir  
Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint, CH7 6NN                  01352 702623

E-bost: [myview@flintshire.gov.uk](mailto:myview@flintshire.gov.uk)

Mae taflen 'Eich hawl i ganmol a chwyno' sy'n egluro sut i gyflwyno eich sylwadau a sut y byddant yn cael eu trin ar gael o'r un cyfeiriad neu ar-lein yma:<https://www.siryffflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Social-Services-Information-Leaflets-Welsh.aspx>

Mae ystod eang o wybodaeth am y system gofal a chymorth yng Nghymru ar gael ar-lein yma:  
[www.dewis.cymru](http://www.dewis.cymru)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i dderbyn fersiwn Saesneg.

**Mae'r daflen hon ar gael mewn fformatau eraill gan gynnwys Braille a Phrint Bras ar gais drwy ffonio 03000 858 858.**